------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 22 Ebrill 2015**

Amser:
**09.00**


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Sarah Beasley**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddCCLLL@Cynulliad.Cymru


## Agenda

**Sesiwn breifat cyn y cyfarfod (9.00 - 9.45)**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1 - y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (09.45 - 11.15) (Tudalennau 1 - 24)

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Simon White, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru
Neil Buffin, Uwch Gyfreithiwr, Y Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

### 3 Papurau i'w nodi (Tudalennau 25 - 27)

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2, ac ystyried yr adroddiad drafft ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)).

**5 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): trafod y dystiolaeth a ddaeth i law yn sesiwn 1 (11.15 - 11.25)**

**6 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): ystyried yr adroddiad drafft (11.25 - 12.10)** (Tudalennau 28 - 103)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

2 Ebrill 2015

Annwyl Weinidog

**Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)**

Diolch am gytuno i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Ebrill i roi tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru). Edrychwn ymlaen at y cyfle i drafod darpariaethau'r Bil gyda chi.

Cyn y sesiwn honno, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried y materion canlynol, gyda'r bwriad o **ymateb erbyn dydd Iau 16 Ebrill** er mwyn i'r Aelodau allu ystyried eich ymateb cyn y sesiwn dystiolaeth.

**1. Y Gyfraith Gyffredin**

Mae'n edrych fel petai bwriad yn y Bil, fel y'i drafftiwyd, i ddisodli'r gyfraith gyffredin, gan gefnu arni mewn mannau, a'i mabwysiadu mewn mannau eraill. Allwch chi gadarnhau mai dyma oedd eich bwriad, ac allwch chi egluro sut y bwriedir i'r Bil ryngweithio â'r gyfraith gyffredin a sut y byddwch yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud.

**2. Bylchau yn y ddeddfwriaeth**

Mae gennym rai pryderon am nifer o fylchau yn y Bil sy'n edrych fel petaent yn caniatáu i landlordiaid osgoi rhai o'i effeithiau pwysig. Yn benodol, mae'n ymddangos y gall landlordiaid osgoi'r cyfyngiadau ar hysbysiadau adennill meddiant ar sail 'dim bai' trwy ddefnyddio seiliau gorfodol eraill ar gyfer adennill

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth / Policy and Legislation Committee Service
Ffôn / Tel : 0300 200 6565
E-bost / E-mail seneddCELG@cynulliad.cymru

meddiant, a hynny mewn ffyrdd nad ydynt, i bob golwg, wedi'u bwriadu. Er enghraifft, nid oes cyfyngiad ar allu landlord i gynyddu'r rhent, ac ymddengys nad oes unrhyw fodd i'r tenant wrthwynebu'r cynnydd arfaethedig ar y sail ei fod yn rhy uchel neu'n uwch na lefelau'r farchnad - swyddogaeth a wnaed yn wreiddiol gan Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Felly, mae'n ymddangos nad oes unrhyw gyfyngiad ar allu landlord i gynyddu'r rhent i lefel uchel iawn, y tu hwnt i fodd y tenant, ac yna ceisio meddiant am beidio â thalu'r rhent.

Mae'n ymddangos hefyd nad oes unrhyw beth yn y Bil i atal landlord rhag ceisio amrywiad afresymol yn y denantiaeth, gan wybod na fydd y tenant yn cytuno i amrywiad o'r fath, ac yna defnyddio hynny'n sail dros adennill meddiant.

Mae'r gallu i osgoi'r broses adennill meddiant ar sail 'dim bai', yn enwedig y diffyg rheolaeth ar hyn, yn peri pryder. Rydym hefyd yn pryderu am gael gwared ar y terfyn presennol o chwe mis ar y defnydd o'r gallu cyfatebol o dan adran 21 o Ddeddf Tai 1988. Pe byddai'r rheolaethau a'r cyfyngiadau eraill ar y mecanwaith 'dim bai' yn aneffeithiol ac y gellid eu hosgoi, byddai hynny'n debygol o fod yn annerbyniol i lawer o denantiaid, a gallai fod yn niweidiol i ddiben y Bil.

**3. Terfynu heb hawliad meddiant**

Mae adran 152 yn galluogi landlordiaid a thenantiaid i derfynu tenantiaethau heb fod angen hawlio meddiant. A allwch chi egluro sut y byddai landlord yn cael meddiant gan denant sydd wedi cytuno i adael yn y fath fodd, ac yna'n dewis peidio â gwneud hynny?

**4. Gwast**

O ran athrawiaethau'r gyfraith gyffredin Gwast ac Ymddwyn fel Tenant, allwch chi esbonio pa effaith y bydd y Bil yn ei chael ar ddisgresiwn y llysoedd i ddelio ag ymddygiad annisgwyl gan denantiaid mewn eiddo, ac i landlordiaid gael iawndal am faterion nad ydynt yn cael eu cwmpasu'n benodol mewn contractau.

**5. Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a'r Llysoedd**

Mae'n ymddangos bod y Bil yn tynnu nifer fawr o swyddogaethau craidd oddi wrth Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru o dan Ddeddf Tai 1988. Mae'r rhain yn cynnwys ymdrin â chynnydd mewn rhenti ac amrywiadau i denantiaethau, yr ymdriniwyd â hwy cyn hynny gan gan adrannau 13 a 6 o Ddeddf Tai 1988, yn y drefn honno. Mae'r gwaith hwn ar hyn o bryd yn rhan sylweddol o rôl y Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

Allwch chi roi manylion ynghylch nifer y materion yr ymdrinnir â hwy gan Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ar hyn o bryd, a sut y mae'r rheini'n cael eu dosbarthu ar draws y gwahanol ddarpariaethau deddfwriaethol. Allwch chi hefyd roi rhagamcanion o ran nifer y materion yr ydych yn rhagweld y bydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn ymdrin â hwy pan ddaw Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a'r Bil hwn i rym, yn amodol ar ei ddeddfiad.

Mae'r Bil yn dibynnu'n helaeth ar fod y llysoedd yn penderfynu ar achosion. Allwch chi nodi faint o ddefnydd yr ydych yn disgwyl a gaiff ei wneud o'r llysoedd ar gyfer yr achosion hyn. Yn ogystal â hyn, pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi ynghylch a allai unrhyw rai o'r materion, a neilltuir ar hyn o bryd i'r llysoedd, gael eu gwneud yn well gan Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

Nodwn fod rôl y PRHP yr Alban wedi ehangu yn ddiweddar. Datblygodd y corff hwn o'r sefydliad sydd gyfwerth â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn yr Alban. Allwch chi esbonio pam na roddwyd mwy o rôl i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, yn enwedig mewn perthynas â materion o dan adrannau 14, 37, 38, 85, 94, 100, a 116. Yn ychwanegol at hyn, mae materion eraill yn y Bil sy'n cynnwys penderfyniadau a gaiff eu gwneud yn amodol ar feini prawf penodol. Gallai'r rhain fod yn destun adolygiad caniatáu proses gan Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a byddai hynny'n ddull mwy costeffeithiol o sicrhau goruchwyliaeth farnwrol.

**6. Adolygiad Barnwrol**

Mae rhannau sylweddol o'r Bil yn ymwneud â landlordiaid, boed breifat neu gymunedol, yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â meini prawf penodol. Serch hynny, nid oes proses glir ar gyfer herio'r penderfyniadau hynny. Mae gennym rai pryderon y gallai hyn arwain at nifer fawr o heriau i benderfyniadau, naill ai drwy ddatganiadau neu adolygiad barnwrol. Allwch chi roi rhagamcan o nifer yr heriau a ragwelir, a'r mecanwaith a fydd ar gael i ymdrin â hwy. Allwch chi hefyd nodi pam na fyddai mecanwaith statudol penodol yn cynnwys Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn well mecanwaith.

**7. Pobl ifanc dan oed**


Mae gennym rai pryderon am ganlyniadau pellgyrhaeddol y pwerau yn y Bil sy'n caniatáu i bobl ifanc dan oed ymrwymo i gontractau am denantiaethau, a'r potensial sydd yn hyn o beth i newid y gyfraith gyffredin yng Nghymru. Yn ogystal, mae'n edrych fel petai adran 230(5) yn creu sefyllfa lle y gallai person ifanc dan oed olynu deiliad unrhyw denantiaeth yng Nghymru, gan gynnwys lesoedd hir y tu allan i gwmpas y Bil. Allwch chi gadarnhau mai dyna oedd eich bwriad.

**8. Costau**

O ran y costau gweithredu, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi manylion am y defnydd a ddisgwylir o'r llysoedd mewn perthynas ag eitemau yn y Bil, y costau llys ychwanegol posibl a achosir o ganlyniad i wrandawiadau hirach wrth i'r Bil ymsefydlu, a'r gost debygol i landlordiaid a thenantiaid a achosir gan fethiant i ddeall y darpariaethau. Yn ogystal, allwch chi roi amcangyfrifon o'r costau o hyfforddi'r staff barnwrol a llys.

Edrychaf ymlaen at eich ateb.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**

**Cadeirydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/LG/0408/15

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

Ebrill 2015

**Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)**

Diolch am eich llythyr ar 2 Ebrill yn gofyn am wybodaeth am nifer o agweddau'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru). Gweler isod fy atebion yn y drefn y gofynnoch chi'r cwestiynau yn eich llythyr.

**1. Y Gyfraith Gyffredin**

Yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, mae'r Bil yn ymgorffori rhai agweddau ar y gyfraith gyffredin y byddai'n fanteisiol eu rhoi mewn statud, er enghraifft Pennod 13 y Bil sy'n delio â chefnu ar lety. Mantais fawr hynny yw y byddai'n rhoi eglurder trwy gynnwys materion fel telerau contract meddiannaeth. Bydd Atodlen 9 ar ddisgresiwn strwythuredig, sy'n gosod allan yr amgylchiadau y dylai llys eu hystyried wrth benderfynu ar bwy sydd â meddiant a materion eraill, hefyd yn helpu i lywio datblygiad y gyfraith gyffredin.

**2. Bylchau yn y Ddeddfwriaeth**

Rydych yn mynegi'ch pryder ynghylch y modd y gall landlord osgoi'r cyfyngiadau ar gymryd meddiant ar sail 'dim bai' trwy ddefnyddio seiliau gorfodol eraill mewn ffyrdd nad oeddynt wedi'u bwriadu, er enghraifft trwy amrywio amod yn y contract mewn ffordd a fydd yn debygol o fod yn annerbyniol i'r tenant neu drwy godi'r rhent yn afresymol o uchel. Nid ystyrir bod risg fawr o hyn am y rhesymau canlynol.

- Yn ôl adrannau 108, 127 ac 135, yr unig amrywiadau y caniateir eu gwneud i amodau sylfaenol yw'r rhai fyddai'n ffafrio deiliad y contract.

- Mae adran 126, sy'n delio â newid amodau contractau safonol cyfnodol heblaw'r rhai sy'n ymwneud â rhent, yn darparu bod hysbysiad i amrywio amod yn gweithredu fel hysbysiad landlord o dan adran 172. O ganlyniad, daw hysbysiad o'r fath o dan y cyfyngiadau yn adrannau 174 ac 175 ac ni chaniateir ei roi lle bo'r cyfyngiadau hynny'n gymwys. Rhoddir ystyriaeth bellach i wneud hyn yn gliriach yn y Bil.

- Mewn perthynas â chontractau lle mai'r bwriad yw rhoi sicrwydd deiliadaeth, mae cyfraith achos yn dangos nad oes modd gorfodi cymalau sy'n gofyn am gynnydd mawr yn y rhent. Hefyd, yn ôl y Bil, ar ôl y codiad rhent cyntaf, dim ond unwaith y flwyddyn y caniateir codi'r rhent. Bydd hynny'n cyfyngu ar nifer y troeon y gellir ceisio codi'r rhent. At hynny, os codir y rhent i osgoi'r cyfyngiad ar droi allan er mwyn dial, bydd hawl gan ddeiliad y contract gyflwyno gwrth hawliad os bydd landlord wedi methu â bodloni'r gofyn i drwsio neu i gadw'r llety'n ffit i bobl fyw ynddo.

Am y rhesymau uchod, teimlir nad oes bylchau arwyddocaol yn y Bil.

**3. Terfynu heb Hawliau Meddiant**

Os bydd tenant yn gwrthod â gadael eiddo o dan adran 153 (terfynu trwy gytundeb) ar y dyddiad y cytunwyd arno, yna bydd y contract gwreiddiol yn parhau. Byddai'r landlord yn gallu ceisio meddiant trwy'r darpariaethau eraill a ganiateir yn y Bil mewn cysylltiad â'r contract perthnasol.

**4. Gwast**

Yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, ymdrinnir â chysyniadau fel Gwast ac Ymddwyn fel Tenant trwy delerau o fewn y contract meddiannu yn hytrach na thrwy ddibynnu ar gyfraith gyffredin. Er enghraifft, yn lle Ymddwyn fel Tenant, cynhwysir darpariaeth ategol ynghylch cyfrifoldeb y tenant i ofalu am yr annedd yn y rheoliadau a wneir o dan adran 23.

**5. Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a'r Llysoedd**

Ychydig o asesiadau rhent y mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn eu cynnal ar hyn o bryd. Ym 2013-14, cafodd Pwyllgor Asesu Rhenti eu ffurfio i ystyried chwe achos ac yn 2014-15, ystyriwyd pedwar achos. Yn hanner y deg achos hwn, gwnaeth y Pwyllgorau naill ai gadarnhau'r rhent a gynigiwyd gan y landlord neu godi'r rhent. Cafodd yr holl achosion eu dwyn o dan adran 13 Deddf Dai 1988 ac ni ddygwyd yr un achos o dan adran 6. O ganlyniad, er bod darpariaeth yn y Bil trwy baragraff 16 o Atodlen 11 i denant sicr y mae'r weithdrefn hon yn effeithio arno i ddefnyddio'r trefniant hwn, nid yw'r Bil yn ei gario yn ei flaen i gontractau newydd. Effaith gyffredinol y Bil felly, yw lleihau'r baich ar y Tribiwnlys.

Nid oes rhagolygon wedi'u gwneud ynghylch nifer yr achosion y bydd y Tribiwnlys yn debygol o orfod delio â nhw yn sgil Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014. Ar sail ein profiad o newidiadau o'r math hwn i ddeddfwriaeth yn y gorffennol, wrth i'r Tribiwnlys osod cynsail, bydd nifer yr apelau yn y dyfodol yn gostwng yn sylweddol. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r Tribiwnlys i fonitro'r baich gwaith.

O ran delio ag anghydfodau mwy cyffredinol, parheir i ddefnyddio'r trefniadau presennol. Deellir bod nifer o gyrff wedi dadlau y dylai'r Tribiwnlys ymdrin â chyfran uwch o'r anghydfodau hyn neu y dylid sefydlu llys tai arbenigol. Er bod dadleuon da o blaid newid o'r fath, teimlwyd bod y Bil eisoes yn golygu newid mawr i landlordiaid a thenantiaid. At hynny,

fel y tystia’r niferoedd uchod, byddai’n rhaid wrth waith sylweddol i gynyddu capasiti’r Tribiwnlys iddo allu ymgymryd â mwy o rôl.

**6. Adolygiad Barnwrol**

O ran cyfeirio mwy o adolygiadau barnwrol at y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn hytrach na’r llys, gan fod proses adolygu’r gyfraith weinyddol yn fater hynod arbenigol, teimlir mai’r llys fyddai’r lle gorau i gynnal y broses honno. Nid oes gennym ragamcanion ynghylch nifer yr adolygiadau o’r fath ond byddwn yn monitro hyn fel rhan o’n hasesiad o weithrediad y Bil.

**7. Pobl Ifanc dan Oed**

Yn ôl adran 230, caiff pobl 16 ac 17 oed ddal contract meddiannaeth ar yr un sail â phobl 18 oed a mwy a bod yr adran felly’n ddarpariaeth alluogi i fynd i’r afael â phroblemau tai’r grŵp oed hwn. Gan mai â chontractau meddiannaeth y mae’r ddarpariaeth yn ymdrin â nhw, nid ydym yn credu bod sgôp i newid y gyfraith gyffredin yn helaethach. Yn yr un modd, mae adran 230(5) yn ymdrin â chontractau meddiannaeth o dan y Bil a chan y ceir amod penodol i wahardd lesoedd hir o fwy nag 21 mlynedd rhag cael bod yn gontractau meddiannaeth, rydym o’r farn na fyddai’r Bil yn galluogi pob ifanc o dan oed olynu i lesoedd o’r fath.

**8. Cost**

Mae fy swyddogion wedi bod yn trafod â’r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi, y Coleg Barnwrol a chyda barnwyr am y cynigion yn y Bil. Nid ydym o’r farn y bydd y Bil yn arwain at gynyddu costau. Yn wir, tros amser, gellir disgwyl i nifer yr anghydfodau ostwng gan y bydd hawliau a chyfrifoldebau’n gliriach. Dylai costau landlordiaid a thenantiaid hefyd ostwng dros amser yn hytrach na chynyddu.

Rwy’n gobeithio bod yr ateb hwn yn ddefnyddiol ac rwy’n disgwyl ymlaen at ymddangos ger bron y Pwyllgor ar 22 Ebrill.

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

22 April 2015 – Papurau i'w nodi

| Rhif papur: | Mater | Oddi wrth | Cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| **Papurau cyhoeddus i'w nodi** | | | |
| 3 | Bil Llywodraeth Leol (Cymru) | Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus | Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 26 Mawrth 2015 |

**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/LA/0387/15

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Ebrill 2015

Annwyl Christine,

Wrth gyflwyno tystiolaeth ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn y Pwyllgor ar 26 Mawrth, cytunais y byddwn yn chwilio am fanylion lefelau'r dreth gyngor (ac eithrio praeseptau plwyf) a osodwyd gan Awdurdod Unedol newydd Cernyw yn dilyn uno Cyngor Sir Cernyw a'r cyn gynghorau dosbarth yn 2009-10.

Awgrymwyd yn ystod y sesiwn tystiolaeth i'r Pwyllgor fod yr awdurdod unedol newydd wedi gosod lefelau treth gyngor gwahanol ar gyfer yr un bandiau eiddo ar gyfer eiddo ym mhob un o ardaloedd y cyn gynghorau dosbarth.

Mae'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth y DU yn dangos nad yw hyn yn wir (gweler yr atodiad). Mae'r atodiad yn cyflwyno'r data hanesyddol sy'n dangos y dreth gyngor gyfunol (ac eithrio praeseptau plwyf) ar gyfer eiddo Band D ym mhob un o ardaloedd y cyn gynghorau dosbarth yn y flwyddyn cyn uno ac ym mlwyddyn gyntaf bodolaeth yr Awdurdod newydd. Mae hyn yn dangos y cysonwyd y dreth gyngor yn llawn yn y flwyddyn gyntaf. Mae cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D yn cynrychioli cynnydd rhwng 0.5% a 4.9% ar gyfer eiddo ym mhob un o ardaloedd y cyn gynghorau dosbarth.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

## Uno yng Nghernyw yn 2009

**Lefelau Treth Gyngor Band D (£s) yng Nghernyw, ac eithrio praeseptau plwyf**

| Ardal | Band D 2008-09 ym mhob ardal | 2008-09 Sir a Dosbarth | 2009-10 Awdurdod Unedol Cernyw | % y cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Sir Cernyw | 1,017.73 | | | |
| Dosbarth Caradon | 176.02 | 1193.75 | 1,209.34 | 1.3% |
| Dosbarth Carrick | 149.91 | 1167.64 | 1,209.34 | 3.6% |
| Dosbarth Kerrier | 185.06 | 1202.79 | 1,209.34 | 0.5% |
| Dosbarth Gogledd Cernyw | 158.68 | 1176.41 | 1,209.34 | 2.8% |
| Dosbarth Penwith | 134.83 | 1152.56 | 1,209.34 | 4.9% |
| Dosbarth Restormel | 157.28 | 1175.01 | 1,209.34 | 2.9% |

Ffynhonnell y data gwreiddiol: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Dadansoddiad : Llywodraeth Cymru
https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/live-tables-on-council-tax

Nodiadau:

- Mae'r tabl uchod yn dangos ffigurau hanesyddol y Dreth Gyngor a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, sydd ar gael yma: https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/live-tables-on-council-tax.

- Mae'r tabl yn dangos cysoni'r Dreth Gyngor yn 2009-10, pan unwyd chwe dosbarth ac un sir yn un awdurdod unedol.

- Mae'r achos busnes gwreiddiol dros uno i'w weld drwy'r ddolen ganlynol. Yn y ddogfen atodiadau, ceir gwybodaeth ynghylch cynigion cysoni'r Dreth Gyngor: https://www.cornwall.gov.uk/council-and-democracy/council-background/unitary-bid/.

- Mae'r ffigurau'n dangos y cysonwyd y Dreth Gyngor yn llawn ym mlwyddyn gyntaf o fodolaeth yr Awdurdod newydd.

- Mae'r cynllun busnes gwreiddiol yn dangos mai bwriad yr Awdurdod newydd oedd defnyddio £3.4m o'r arbedion disgwyliedig o uno i atal cynnydd yn y Dreth Gyngor. Mae'r cynllun busnes hefyd yn datgan y byddai'r rhan fwyaf o filiau'r dreth gyngor yn cynyddu o lai nag o dan system ddinewid o lywodraeth leol yng Nghernyw.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon